# Canllaw Gam-wrth-Gam ar sut i fod yn Nyrs Filfeddygol

## Canllaw i ysgolion



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY






# Diwrnod ym Mywyd...

Beth i ddisgwyl

**Tasgau heddiw:**

- Gofalu am gleifion mewnol
- Paratoi at driniaethau ac ymgynghoriadau'r diwrnod
- Gwaith cynnal a chadw ar offer arbenigol
- Monitro'r anesthetig
- Helpu â llawdriniaeth
- Darparu meddyginiaeth a hylifau
- Cymryd samplau e.e. gwaed, wrin, croen
- Cynnal pelydrau-x a phrofion diagnostig
- Rheoli heintiau
- Rhedeg clinigau nyrsio e.e. rheoli pwysau, ail frechiadau, gwiriadau geriatreg, gwirio cŵn/cathod bach
- Ymateb i argyfyngau
- Cynorthwyo'r dderbynfa
- Cynghori ac addysgu'r cyhoedd
- Trefnu'r fferyllfa
- Mynd gyda'r milfeddyg ar ymweliadau cartref
- Rheoli cofnodion cleifion
- Nyrsio cymunedol
- Hyfforddi a mentora
- Trefnu'r filfeddygfa

**Wyddoch chi?**

Amcangyfrifir bod 12 miliwn o gŵn a 12 miliwn o gathod yng ngwledydd Prydain.



# Felly, hoffech chi fod yn nyrs filfeddygol?

**Mae cymhwyso i fod yn nyrs milfeddygol yn gryn gamp, ac mae'n agor llawer o ddrysau i wahanol yrfaoedd.**

**Beth allwch chi ei wneud â gradd mewn nyrsio milfeddygol?**

1. Gweithio fel nyrs filfeddygol mewn milfeddygfa gyffredinol, milfeddygfa gyfeirio arbenigol, y byd academaidd, neu ym maes fferylliaeth.
2. Astudio cwrs ôl-raddedig i ennill arbenigedd megis Tystysgrif Nyrsio Milfeddygol Uwch (Tystysgrif AVN) mewn Gofal Brys a Chritigol, Anesthesia, Un lechyd neu Arweinyddiaeth.
3. Teithio! Fel nyrs filfeddygol, cydnabyddir eich cymhwyster mewn llawer o wledydd, gan y bydd wedi'i achredu gan ACOVENE.
4. Gweithio mewn sawl swydd neu sector fel locwm, mewn elusennau, y lluoedd arfog, maes ymddygiad neu ddysgu.



**Wyddoch chi?**

Mae rhoi mwythau i gi yn gostwng pwysedd gwaed ac yn lleihau straen.





# Blwyddyn 7

**Dyma rai syniadau i'ch helpu i ddatblygu'ch sgiliau a'ch doniau yn ystod y flwyddyn gyntaf yn eich ysgol newydd.**

### Gwybodaeth wyddonol

Cymerwch ran mewn clwb gwyddoniaeth ar ôl ysgol i ddysgu mwy am wyddoniaeth gyffredinol. Efallai y byddwch chi hyd yn oed yn dysgu ychydig mwy am weithio ym maes milfeddygaeth.

### Sgiliau cyfathrebu

Mae angen amrywiaeth o sgiliau a nodweddion ar nyrs filfeddygol yn ogystal â gwybodaeth am anifeiliaid, felly meddyliwch am ffyrdd o weithio ar eich sgiliau rhyngbersonol/cyfathrebu y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Efallai y bydd cynorthwyo'ch ysgol ar bethau fel Nosweithiau Agored yn helpu i ddatblygu'ch sgiliau cyfathrebu.

# Blwyddyn 8

**Rhai pethau i'w gwneud i'ch rhoi ar ben y ffordd i fod yn nyrs filfeddygol.**


### Gwaith Cartref

Mae nyrsiaid milfeddygol yn gwneud eu gwaith cartref! Mae angen iddyn nhw wneud gwaith a darllen yn eu hamser eu hunain i sicrhau eu bod yn gwybod am yr holl ddatblygiadau diweddaraf yn y maes. Efallai bod eich gwaith cartref yn gallu teimlo fel bwrn, ond fe fydd yn datblygu arferion da am flynyddoedd i ddod.

### Milfeddygon ar y Teledu

Mae llawer o raglenni am fywyd mewn milfeddygfeydd ar y teledu. Gwyliwch rai rhaglenni i ddysgu sut beth yw bywyd nyrs filfeddygol mewn gwirionedd, ac i weld a allech eich gweld eich hun yn gwneud hynny yn y dyfodol. Ond cofiwch, dim ond rhai agweddau ar y swydd mae'r teledu'n eu dangos - mae gyrfaoedd milfeddygol yn llawer ehangach na'r hyn rydych chi'n ei weld ar y teledu.

Mae gan nyrsiaid milfeddygol hyfforddiant eang mewn gwyddoniaeth a mathemateg ac maen nhw'n gymwys i wneud mwy na dim ond gofalu am anifeiliaid! Ceisiwch feithrin diddordeb mewn gwyddoniaeth a'r byd o'ch cwmpas trwy fynd i glybiau, darllen, a dilyn straeon am wyddoniaeth yn y newyddion.



# Blwyddyn 9

### Eich Dewisiadau

Ym mlwyddyn 9 (neu flwyddyn 8 mewn rhai ysgolion), byddwch yn dewis eich pynciau TGAU. Er bod yn rhaid i chi wneud rhai pynciau craidd ym Mlynyddoedd 10 ac 11 (er enghraifft Saesneg a Mathemateg), bydd pynciau eraill lle bydd gennych ddewis i barhau ai peidio.

### Pa bynciau TGAU fydd eu hangen arnaf?

Dechreuwch feddwl am yr hyn mae nyrs filfeddygol yn ei wneud a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt. Dewiswch bynciau a fydd yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn.

Pa lwybr bynnag rydych chi'n ei ddewis i nyrsio milfeddygol, byddwch angen o leiaf 5 TGAU, a bydd angen pynciau gwyddonol i gael eich derbyn i unrhyw gwrs nyrsio milfeddygol.

- Bydd angen o leiaf un wyddoniaeth arnoch chi, bioleg yn ddelfrydol. Bydd Gwyddoniaeth Gyfunol/Gwyddoniaeth Ddwbl (dwy TGAU) neu bynciau gwyddoniaeth eraill yn ddefnyddiol a byddant yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol dda am lawer o'r cysyniadau y byddwch eu hangen fel nyrs filfeddygol. Mae bioleg yn hanfodol er mwyn deall y corff a sut mae'n gweithio. Gall ffiseg eich helpu i ddeall sut mae offer yn gweithio, er enghraifft, sut mae pelydrau-x yn cael eu cynhyrchu. Bydd cemeg yn eich helpu i ddeall ffarmacoleg.

### Beth arall?

- Mae llawer o nyrsiaid milfeddygol yn dod yn rheolwyr mewn milfeddygfa a rhai hyd yn oed yn dod yn gyfarwyddwyr clinigol. Yn hyn o beth gall TGAU Astudiaethau Busnes fod yn ddefnyddiol i'ch gyrfa yn y dyfodol.
- Ewch draw i gael cip ar wefan UCAS a thudalennau cyrsiau nyrsio milfeddygol ar wefannau prifysgolion i weld beth yw'r gofynion o ran pynciau a graddau TGAU. Trwy wneud hynny fe gewch syniad go lew beth i'w astudio a pha raddau fydd angen i chi anelu atynt.
- Dewiswch opsiynau y credwch y byddwch yn eu mwynhau. Bydd nyrsiaid milfeddygol yn mwynhau eu gwaith a bydd ganddynt angerdd am nyrsio anifeiliaid sy'n sâl a neu wedi brifo. Mae'r un syniad yn wir am bynciau TGAU hyd yn oed - dylech fwynhau datblygu gwybodaeth ar draws nifer o bynciau.



**Wyddoch chi?**

Mae gan gŵn 18 o gyhyrau gwahanol i reoli eu clustiau.

# Blwyddyn 10

## Profiad Gwaith

Does dim ots a ydych chi eisoes wedi rhoi'ch bryd yn bendant ar fod yn nyrs filfeddygol, neu'ch bod yn dal yn ansicr ac am gael gwybod mwy, mae Blwyddyn 10 yn amser gwych i ddechrau meddwl am gael ychydig o brofiad gwaith yn y maes.

Mae gan lawer o ysgolion raglenni profiad gwaith, lle bydd pythefnos wedi'i neilltuo i brofiad gwaith. Fydd hyn ddim yn wir am bob ysgol, felly fe fyddai'n rhaid i chi fynd ati o'ch pen a'ch pastwn eich hun. Efallai fod hynny'n teimlo braidd yn frawychus, felly dyma ychydig o gyngor i'ch helpu:

- Cysylltwch â rhai milfeddygfeydd lleol a gofyn a fyddai'n bosib gwneud rhywfaint o brofiad gwaith. P'un ai diwrnod, wythnos neu hirach yw'r cyfnod, fe fydd yn eich helpu i weld beth mae nyrs filfeddygol yn ei wneud o ddydd i ddydd. Efallai y bydd rhai meddygfeydd hyd yn oed yn chwilio am gymorth rheolaidd ar benwythnosau!
- Siaradwch â'ch Cynghorydd Gyrfaoedd yn yr ysgol. Mae'n bosib y bydd ganddyn nhw gysylltiadau gwych â llawer o wahanol ddiwydiannau lle y gallwch weithio gydag anifeiliaid.
- Pan fyddwch chi ar eich profiad gwaith, gofynnwch lawer o gwestiynau i'r staff rydych chi'n gweithio gyda nhw. Pethau fel: sut gwnaethon nhw gyrraedd lle maen nhw; pa gyngor y bydden nhw'n ei roi i rywun sy'n ystyried y proffesiwn, a beth yw'r prif sgiliau a phriodweddau sydd eu hangen ar nyrs filfeddygol.
- Ar ôl gwneud y profiad gwaith, ystyriwch beth i'w wneud nesaf. Dim ond y man cychwyn fydd y profiad gwaith i'ch rhoi ar ben y ffordd i ddysgu mwy am fod yn nyrs filfeddygol.
- Gall fod yn anodd dod o hyd i brofiad gwaith, ac mae llawer o filfeddygfeydd yn derbyn disgyblion hŷn yn unig. Peidiwch â digalonni - daliwch ati. Mae pob profiad gwaith yn brofiad da. Os na allwch ddod o hyd i filfeddygfa a wnaiff eich derbyn, dechreuwch â mathau eraill o brofiad ag anifeiliaid a daliwch ati i gysylltu â milfeddygon. Os ydych wedi cael profiad mewn diwydiannau eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, efallai y byddant yn fwy parod i roi cyfle i chi.

# Blwyddyn 11

## Amser i benderfynu beth sy'n digwydd nesaf.

Byddwch yn clywed am lawer o gymwysterau gwahanol fel BTEC a Safon Uwch/Lefel A. Os ydych am fod yn nyrs filfeddygol, mae'n bwysig cymryd yr amser i ddewis y mathau iawn o gymwysterau a'r pynciau iawn.

Dyma rai pethau i'w hystyried:

- Bydd angen pynciau penodol i gyrsiau nyrsio milfeddygol. Efallai y byddan nhw'n amrywio o brifysgol i brifysgol. Dyma rai enghreifftiau:

  - Rhaid i fyfyrwyr astudio Bioleg. Gellir dewis unrhyw ddau bwnc Safon Uwch arall.

  - Derbynnir cymwysterau eraill fel BTEC, os yw'n ddiploma estynedig, ac nid diploma safonol. Rhaid i'r rhain fod mewn pwnc sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth neu anifeiliaid, a rhaid iddynt gynnwys unedau mewn Bioleg a/neu Anatomeg a Ffisioleg.

  - Os ydych eisoes wedi cwblhau Safon Uwch a/neu BTEC ond nad oes gennych y graddau sy'n ofynnol i'r cwrs, gallwch ystyried cwrs Mynediad i Addysg Uwch neu gwrs Sylfaen i ennill y credydau ychwanegol angenrheidiol yn y pynciau perthnasol.
- Meddyliwch a fydd eich pynciau eraill yn eich helpu i astudio nyrsio milfeddygol. Efallai y bydd pynciau a all eich helpu wedyn yn y brifysgol neu yn eich gyrfa fod yn fwy defnyddiol.

# Blwyddyn 12

### Mae'n bryd dechrau meddwl o ddifri am sicrhau bod gennych chi'r siawns orau posib o gael eich derbyn i gwrs sy'n berthnasol i nyrsio milfeddygol. Dyma rai pethau i'w hystyried ym Mlwyddyn 12:

1. Gwnewch ymchwil i gyrsiau nyrsio milfeddygol. Beth mae'r gwahanol gyrsiau'n yn ei gynnig a beth yw'r gofynion derbyn? Pa brifysgol sy'n apelio fwyaf atoch chi?
2. Profiad Gwaith. Dysgwch faint o brofiad gwaith (a pha fath) sydd angen ei wneud er mwyn gwneud cais am eich dewis gwrs. Efallai y bydd rhai prifysgolion hefyd yn pennu bod angen i'r profiad gwaith hwnnw fod wedi'i gael yn y 18 mis diwethaf, neu ddwy neu dair blynedd cyn y dyddiad cau am geisiadau (er enghraifft). Mae'n bosib y bydd gan wahanol gyrsiau ofynion gwahanol ar hyn i gyd.
3. Datblygwch sgiliau allweddol perthnasol, a chasglu enghreifftiau da sy'n dangos y sgiliau hynny. Dyma rai o'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i fod yn nyrs filfeddygol lwyddiannus:
   - Cyfathrebwr da, sy'n gallu cyfleu gwybodaeth gymhleth mewn modd hawdd ei ddeall, er enghraifft siarad â pherchnogion anifeiliaid anwes ynglŷn â gofalu am eu hanifeiliaid.
   - Gofal a chydymdeimlad gan rywun sy'n gallu dangos eu bod yn uniaethu ag eraill mewn amgylchiadau sydd yn aml yn heriol, e.e. wrth ofalu am achosion anodd lle nad oes canlyniad cadarnhaol bob amser.
   - Yn hyblyg ond eto'n gallu gwneud penderfyniadau. Wyddoch chi byth beth fydd yn codi nesaf pan fyddwch chi yn gweithio gydag anifeiliaid, felly mae'n hanfodol gallu ymaddasu a bod yn hyblyg. Mae pob diwrnod yn unigryw wrth weithio fel nyrs filfeddygol!
4. Bod yn unigolyn 'cyflawn'. Mae prifysgolion yn awyddus i gael ceisiadau oddi wrth unigolion sydd ag ystod o wahanol sgiliau a phrofiadau.
5. Cymerwch gyfrifoldeb dros eich dysgu eich hun. Cadwch gofnod o'ch cyflawniadau.



# Blwyddyn 13

**Does dim ond blwyddyn cyn i chi gychwyn ar eich cwrs nyrsio milfeddygol. Os ydych yn gwneud cais am gwrs gradd Nyrsio Milfeddygol, bydd yn rhaid i chi gyflwyno'ch cais ym mis Ionawr Blwyddyn 13.**

**Wyddoch chi?**

Credir bod yr ymlusgiaid cyntaf wedi esblygu tua 320 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

## Beth arall ddylech chi fod yn ei wneud?

1. Parhau â'ch profiad gwaith a myfyrio arno. Peidiwch â gweld y profiad gwaith fel rhywbeth sy'n sefyll ar wahân. Siaradwch â'r arbenigwyr a dysgu ganddynt yn ystod eich profiad gwaith, gan fynd â'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth i'r lefel nesaf yn eich amser eich hun.


2. Darllenwch yn ehangach. Darllenwch gyfnodolion academaidd gwyddonol ac edrychwch ar wefannau cyrff proffesiynol nyrsio milfeddygol (e.e. Coleg Brenhinol y Milfeddygon) i ddeall y materion cyfoes a'r heriau yn y maes. Fydd eich Lefelau A (neu'ch cymwysterau cyfatebol) ddim yn ddigon ar eu pen eu hunain!

3. Ystyriwch y prifysgolion neu'r colegau sydd orau gennych ac ymwelwch â nhw ar ddiwrnod agored i'ch helpu i ddewis ble yr hoffech fynd.

4. Cynlluniwch eich amser. Beth am greu cynlluniau wythnosol i'ch astudiaethau ym Mlwyddyn 13? Yn y modd hwnnw, byddwch yn gwybod pryd y bydd angen i chi ganolbwyntio ar ysgrifennu'ch Datganiad Personol, cyflwyno'ch cais UCAS neu neilltuo amser i ddarllen yn ehangach am wyddoniaeth a milfeddygaeth.

5. Ewch ati i chwilio am gyfleoedd a manteisiwch arnynt. Mae llawer o sesiynau rhagflas, cynadleddau a digwyddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc yn cael eu cynnal gan brifysgolion a chyrff proffesiynol. Ewch ati i gael gwybod amdanynt a dewiswch rai i fynd iddynt. Gallai'r holl wybodaeth a gesglwch fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

6. Cofiwch ymlacio. Amser prysur iawn yw blwyddyn 13, felly mae'n bwysig ymlacio yn ogystal â gweithio'n galed. Gwobrwywch eich hun hefyd am bethau fel cael marciau da am waith cwrs, neu am gyflwyno'ch cais UCAS o'r diwedd.








# Pa gwrs y dylech chi ei ddewis?

## Mae dau brif lwybr i nyrsio milfeddygol: y llwybr addysg uwch (gradd) neu'r llwybr addysg bellach (diploma).

Rhaid i bob myfyriwr, beth bynnag fo'r llwybr, gael ei gofrestru yn nyrs filfeddygol dan hyfforddiant (SVN) gyda Choleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS), a bydd darparwr y cwrs yn gwneud hyn ar ddechrau'r cwrs.



### Y llwybr gradd:

Mae'r cyrsiau addysg uwch naill ai'n raddau Sylfaen (FdSc) gyda dewisiadau i ategu'r cwrs hwnnw, neu raddau Baglor (BSc). Bydd yr FdSc yn llwybr tair blynedd a bydd y BSc yn cymryd pedair blynedd. Rhaid i'r RCVS achredu pob cwrs addysg uwch. Nhw sy'n pennu'r safonau y mae'n rhaid i'r darparwyr eu bodloni, er mwyn sicrhau bod nyrsiaid milfeddygol yn cael hyfforddiant addas. Bydd modiwlau'r cyrsiau yn cyd-fynd â disgwyliadau'r RCVS o ran y Sgiliau Diwrnod Un, y Cymwyseddau Diwrnod Un a'r Ymddygiadau a'r Priodoleddau ar gyfer nyrs filfeddygol. Bydd y cwrs hefyd yn cynnwys pynciau ychwanegol neu'n rhoi'r sylfaen i arbenigeddau mewn meysydd penodol o nyrsio milfeddygol. Os byddwch yn gwneud gradd, bydd gofyn i chi basio'r holl fodiwlau, a fydd yn cynnwys:

- Modiwlau sy'n cyd-fynd â Sgiliau Diwrnod Un yr RCVS ar gyfer Anifeiliaid Bach NEU Geffylau
- Asesiadau ar ffurf arholiadau ym mhob modiwl sy'n cyd-fynd â Chymwyseddau Diwrnod Un yr RCVS
- Amrywiaeth o asesiadau eraill
- 1800 awr o leoliad gwaith mewn milfeddygfa hyfforddi gofrestredig
- Cynnal cofnod ar-lein o sgiliau clinigol, fel arfer y Cofnod Cynnydd Nyrsio (NPL), sy'n cynnwys holl Gymwyseddau Diwrnod Un yr RCVS
- Arholiad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE), sef arholiad ymarferol i'r Cymhwysedd Diwrnod Un sy'n cael ei gynnal gan ddarparwr y cwrs.

Bydd y lleoliad gwaith naill ai'n flwyddyn ryng-gwrs neu'n cael ei gyflawni mewn blociau, a rhaid i brifysgolion ddarparu'r lleoliadau hyn i'w myfyrwyr. Gwneir hyn ochr yn ochr â datblygu sgiliau trosglwyddadwy wrth lunio'ch CV a pharatoi at gyfweliadau.

### Llwybr y diploma:

Mae'r llwybr diploma lefel 3 yn gwrs sy'n para 2.5 i 3 blynedd lle y bydd angen cyflogaeth mewn milfeddygfa hyfforddi gymeradwy, gydag un diwrnod yr wythnos mewn coleg lleol sy'n darparu addysg ar nyrsio milfeddygol. Bydd y gofynion derbyn i'r cwrs yn dibynnu ar ba gwrs y byddwch yn ei astudio, ond fel arfer bydd angen o leiaf 5 TGAU gan gynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn aml, bydd y diploma'n cael ei redeg fel prentisiaeth, ac efallai na fydd llawer o ddewis o ran y coleg neu'r brifysgol ble byddwch yn astudio. Dyfernir y diploma gan 'sefydliad dyfarnu' megis VetSkill neu Central Qualifications, a bydd y colegau'n dysgu yn unol â'r maes llafur a ddarperir gan y sefydliad hwnnw. Mae gofynion y cwrs yn cynnwys:

- Pennir yr asesiadau ymlaen llaw ac mae arholiadau'n cael eu cynnal ar-lein.
- Rhaid cwblhau e-bortffolio ar-lein (e.e. NPL neu OneFile) i ddangos datblygiad sgiliau clinigol
- Cynhelir arholiadau OSCE mewn lleoliadau penodol a bydd angen i'r ymgeiswyr deithio i'r lleoliad hwnnw.

Mae'r cwrs yn gystadleuol, a gall fod yn anodd dod o hyd i'r gwaith cyflogedig cychwynnol mewn milfeddygfa. Wrth astudio, bydd angen i chi allu ymdopi ag addysg a gwaith amser-llawn, a all fod yn straen. Er hynny, mae gweithio a dysgu yn y gwaith yn gallu golygu bod eich sgiliau clinigol yn datblygu'n gyflym a'ch bod yn cael llawer o brofiad gwerthfawr.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau lwybr?

Y prif wahaniaethau rhwng y ddau lwybr i nyrsio milfeddygol yw'r dull dysgu (y naill wedi'i seilio ar ddysgu yn y gweithle a'r llall ar ddarlithoedd) a'r dull o'i ariannu. Os ydych am weithio ym maes milfeddygaeth, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y ddau gan fod yn rhaid i'r ddau asesu Sgiliau Diwrnod Cyntaf y Coleg Brenhinol. Ar y cychwyn, mae'n bosib mai'r llwybr addysg uwch fydd yn agor mwy o ddrysau yn y maes milfeddygol ehangach. Gellir gweld y prif wahaniaethau isod:

### Y llwybr gradd

- Gofynion derbyn uwch
- Lleoliad a ddarperir gan y brifysgol
- Cais drwy UCAS
- Cymysgedd o arholiadau a gwaith cwrs
- OSCE sy'n cael ei redeg gan y brifysgol
- NPL i gofnodi sgiliau clinigol
- Llwybr anifeiliaid bach a/neu geffylau
- Benthyciad myfyriwr uwch
- 2990 awr o hyfforddiant gan gynnwys 1800 awr o leoliad gwaith.

### Llwybr y diploma

- Gofynion derbyn is
- Angen cael cyflogaeth yn gyntaf
- Gwnewch gais yn uniongyrchol gyda'r coleg
- Arholiadau yn bennaf gyda rhywfaint o waith cwrs
- Rhedir yr OSCEs mewn gwahanol leoliadau
- NPL neu e-bortffolio
- Deunydd cwrs anifeiliaid bach NEU geffylau
- Prentisiaeth neu fenthyciad dysgu uwch
- 2990 awr o hyfforddiant gan gynnwys 1800 awr yn y coleg ac eithrio gwyliau blynyddol/absenoldeb

# Cyngor am eich Cais UCAS

**I wneud cais am gyrsiau addysg uwch, bydd rhaid mynd trwy UCAS. Dyma ychydig o gyngor allweddol i'ch helpu gyda'ch cais UCAS.**

1. Mae'r dyddiad cau am nyrsio milfeddygol yn dod ganol mis Ionawr.
2. Mae ymgeiswyr yn cael gwneud cais am hyd at bum dewis.
3. Bydd athro neu diwtor yn eich ysgol neu'ch coleg yn cefnogi'ch cais UCAS trwy roi geirda i chi. Er mwyn iddyn nhw allu ysgrifennu geirda gwych, mae angen iddyn nhw wybod am yr holl bethau da rydych chi'n eu gwneud yn y stafell ddosbarth, a'r tu allan iddi hefyd. Mae hynny'n cynnwys sgiliau academaidd a sgiliau 'meddal'. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pwy fydd eich canolwr a dywedwch wrthyn nhw am eich cryfderau a'ch profiadau.
4. Mae rhai camgymeriadau cyffredin y mae pobl yn eu gwneud yn eu ceisiadau UCAS. Allwn ni ddim eu rhestru nhw i gyd yma, ond dyma rai ohonynt:
    - Gwneud cais i'r brifysgol anghywir neu'r cwrs anghywir. Gwiriwch yn ofalus!
    - Ddim yn darllen y cwestiwn neu'r ffurflen yn iawn. Os nad ydych chi'n siŵr, peidiwch â dyfalu: gofynnwch!
    - Cyfeiriad e-bost gwirion. Dylech geisio creu argraff dda, felly gwnewch e-gyfeiriad newydd os oes angen.
    - Enwi prifysgolion penodol yn y Datganiad Personol. Os gwnewch hynny, gallai droi prifysgolion eraill yn eich erbyn oherwydd y gallent gael yr argraff nad oes gennych ddiddordeb go iawn mewn astudio yn eu sefydliad nhw.
    - Heb restru'r holl gymwysterau rydych chi wedi'u gwneud neu wrthi'n eu hastudio a/neu heb eu rhestru'n gywir.



# Datganiad personol

**Dyma ychydig o awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu eich Datganiad Personol UCAS.**

1. Myfyriwch am eich profiad gwaith. Dydy'r ffaith eich bod wedi'i wneud - ar ei phen ei hun - ddim yn ddigon!
2. Dangoswch eich bod yn deall sut beth yw swydd nyrs filfeddygol mewn gwirionedd. Mae gan y BVNA (Cymdeithas Nyrsio Milfeddygol Prydain) Ganllawiau Gyrfaol gwych i'ch helpu gyda hyn.
3. Dangoswch eich bod yn deall materion cyfoes yn y ddisgyblaeth.
4. Rhowch lond llaw o enghreifftiau manwl yn hytrach na llawer o enghreifftiau arwynebol. Cofiwch drafod eich dyheadau am eich dyfodol yn y proffesiwn.
5. Mae nyrsiaid milfeddygol yn wynebu sefyllfaoedd o gyfyng-gyngor moesegol trwy'r amser. Rhowch enghreifftiau lle rydych chi wedi gorfod wynebu problemau tebyg a dangos sut y gwnaethoch ymdrin â nhw.
6. Rhowch enghreifftiau o feddwl beirniadol neu o gwestiynu tystiolaeth. Gallai'r rhain fod o'ch astudiaethau academaidd neu o arbrofion yn eich gwersi yn y labordy.
7. Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau allweddol. Rhowch enghreifftiau o gyfathrebu'n effeithiol, ymdrin â'r cyhoedd, ymdrin â sefyllfaoedd anodd, o'ch cymeriad gofalgar, o'ch hyblygrwydd ond hefyd eich gallu i benderfynu, a'ch gallu i weithio yn rhan o dîm ehangach, rhyngddisgyblaethol. Mae angen yr holl sgiliau hyn - a mwy - ar nyrs filfeddygol!
8. Osgoi copïo! Peidiwch â chael eich temtio i greu enghreifftiau ffug, gorliwio na chopïo o ddatganiadau personol eraill. Bydd eich datganiad personol yn cael ei wirio trwy ei gymharu â hen ddatganiadau personol o flynyddoedd yn ôl i weld a yw'r hyn a ddwedoch chi wedi'i ddweud gan eraill o'r blaen. Cofiwch bob amser mai datganiad PERSONOL yw e.
9. Dyfyniadau, ystrydebau ac ysbrydoliaeth. Dim ond lle cyfyngedig sydd gennych i ysgrifennu'r Datganiad Personol. Peidiwch â'i wastraffu ar ddyfynnu pobl enwog; dydy hynny ddim yn dweud dim amdanoch chi. Ysgrifennwch pam eich bod chi'n ymgeisydd addas am y cwrs.



# Gradd sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth

Gwybodaeth am y cwrs

cyrsiau.aber.ac.uk/undergraduate/veterinary-nursing

## Pa mor hir yw'r cwrs?

**Tair blynedd**

## Ble bydda i'n astudio?

**Cynhelir y cwrs yng Nghampws Penglais ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd y lleoliad blwyddyn yn dechrau hanner ffordd trwy flwyddyn 2 yn para blwyddyn gyfan. Cynhelir y lleoliad gwaith mewn milfeddygfa hyfforddi gofrestredig.**

## Gofynion mynediad nodweddiadol

- **5 gradd TGAU (C/4 neu'n uwch), gan gynnwys Saesneg a Mathemateg a Gwyddoniaeth.**
  - **Naill ai:** 3 Lefel A - CCC, gan gynnwys un mewn pwnc gwyddor bywyd e.e. Bioleg.
  - **NEU:** Diploma estynedig BTEC mewn rheoli anifeiliaid neu bwnc gwyddonol.
  - **NEU:** Cwrs Mynediad Addysg Uwch (Gwyddoniaeth) neu gwrs Sylfaen.
  - + **YN OGYSTAL AG :** o leiaf 2 wythnos o brofiad gwaith mewn milfeddygfa, gyda geirda yn dystiolaeth.

## Sut mae gwneud cais?

**Trwy UCAS, gweler ucas.com**

## Pryd mae'r dyddiad cau?

**Ionawr**

Gwybodaeth ychwanegol

aber.ac.uk/gwyddor-filfeddygol

# Dewisiadau eraill posib heblaw Nyrsio Milfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth

Edrychwch ar y cyrsiau hyn ar ein gwefan

cyrsiau.aber.ac.uk/subjects/

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae gennym lawer o gyrsiau gwahanol os hoffech ddilyn gyrfa sy'n gweithio gydag anifeiliaid. Os nad ydych chi'n hollol sicr mai nyrsio milfeddygol yw'r dewis iawn i chi, beth am ystyried un o'r rhain?

- **Amaethyddiaeth**
- **Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid**
- **Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes**
- **Bioleg y Môr a Dŵr Croyw**
- **Biowyddorau Ceffylau a Milfeddygol**
- **Biowyddorau Milfeddygol**
- **Cadwraeth Bywyd Gwyllt**
- **Gwyddor Anifeiliaid**
- **Gwyddor Ceffylau**
- **Gwyddor Filfeddygol**
- **Sŵoleg**
- **Ymddygiad Anifeiliaid**



# Awgrymiadau ar ddewis cwrs prifysgol a ble i astudio

**Does dim ots p'un sydd o ddiddordeb i chi - Nyrsio Milfeddygol, pwnc gwyddonol arall, neu faes hollol wahanol - gadewch i ni gael golwg ar rai pethau y gallwch eu gwneud nawr i helpu i sicrhau eich bod yn ffynnu yn y brifysgol sy'n iawn i chi.**

1. Ymchwiliwch i'r cyrsiau. Mae dewis y cwrs cywir yn allweddol i'ch llwyddiant. Efallai y bydd cyrsiau sydd â theitlau tebyg mewn gwahanol brifysgolion yn astudio pethau gwahanol mewn gwirionedd. Mae'r pethau i'w hystyried yn cynnwys:
    - Gwybodaeth ar-lein am fodiwlau i weld beth y byddwch chi'n ei astudio yn y cwrs sydd o ddiddordeb i chi.
    - Dulliau Asesu. Fel arfer mae'r rhain yn cynnwys arholiadau a gwaith cwrs ysgrifenedig, ond gallent gynnwys cyflwyniadau a phethau eraill hefyd.
    - Ffigurau cyflogaeth y graddedigion. Pa mor debygol yw hi y cewch swydd ar ôl gorffen eich cwrs?
    - Bodlonrwydd y myfyrwyr. Mae lefelau uchel o fodlonrwydd yn dangos bod yr addysg o ansawdd da.
2. Y dysgu. Rydyn ni i gyd yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol ac wrth i gyrsiau gael eu dysgu mewn gwahanol ffyrdd ym mhob prifysgol, efallai y byddwch chi am gael gwybod mwy am y dulliau dysgu. Cofiwch hefyd feddwl am yr amgylcheddau dysgu y byddwch chi'n cael eich dysgu ynddynt. Sut beth yw'r adnoddau? Pa mor ymarferol yw'r cwrs? Faint o fyfyrwyr fydd yn eich dosbarthiadau?
3. Ewch i lawer o Ddyddiau Agored. Bydd hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa i gymharu gwahanol drefi a dinasoedd, prifysgolion a chyrsiau.
4. Ffeiriau UCAS a digwyddiadau cenedlaethol eraill. Ewch i gynifer ohonynt ag y gallwch a gofyn cwestiynau.
5. Lleoliad. Ydych chi'n chwilio am amgylchedd gwledig neu fywyd mewn dinas? Ydych chi eisiau prifysgol ar gampws? Am beth ydych chi'n chwilio yn y lleoliad o ran hamdden, hwyl a phethau i'w gwneud yn eich amser rhydd? Cofiwch feddwl am y pethau hyn i gyd wrth edrych ar gwrs a phrifysgol; mae angen i chi feddwl beth sy'n iawn i chi!



# Esboniadur jargon

## RCVS
Coleg Brenhinol y Milfeddygon / The Royal College of Veterinary Surgeons. Corff llywodraethol y proffesiwn yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i bob nyrs filfeddygol gofrestru â'r RCVS i ymarfer y proffesiwn ac ymgymryd â gweithdrefnau Atodlen 3 yn gyfreithiol.

## Atodlen 3
O dan Atodlen 3 i Ddeddf Milfeddygon 1966, dim ond nyrsiaid milfeddygol cofrestredig a nyrsiaid milfeddygol dan hyfforddiant (o dan oruchwyliaeth uniongyrchol, barhaus a phersonol) gaiff ymgymryd â gweithdrefnau penodol mewn milfeddygfa, yn unol â'r hyn a ddirprwyir iddynt gan filfeddygon a gyflogir yn yr un filfeddygfa.

## Clinigol
Mae nyrs filfeddygol yn gallu gweithio mewn swyddi 'clinigol' ac 'anghlinigol'. Swyddi clinigol yw'r rhai lle mae nyrs filfeddygol yn trin anifeiliaid, e.e. mewn milfeddygfa. Swyddi anghlinigol yw lle mae nyrs filfeddygol yn defnyddio gwybodaeth arbenigol ond nid yw'n gweithio gydag anifeiliaid sâl yn uniongyrchol yn rheolaidd, e.e. nyrs filfeddygol sy'n gweithio mewn ymchwil, sy'n dysgu neu'n gweithio yn y diwydiant fferyllol.

## Milfeddygfa Gyffredinol
Mae'r rhan fwyaf o nyrsiaid milfeddygol yn gweithio mewn milfeddygfa gyffredinol ar ôl iddynt raddio a chofrestru. Mae milfeddygfa gyffredinol yn golygu canolfan nad yw'n arbenigo sy'n ymdrin ag anifeiliaid anwes, ceffylau neu anifeiliaid fferm.

## Milfeddygfa atgyfeirio
Milfeddygfa atgyfeirio yw milfeddygfa sy'n cyflogi arbenigwyr sydd â chymwysterau pellach, ac felly gallant dderbyn achosion anodd a chymhleth a gyfeirir atynt gan filfeddygon cyffredinol am driniaeth fwy arbenigol. Er enghraifft, efallai y bydd ci sydd wedi torri coes mewn modd mwy cymhleth yn cael ei gyfeirio i filfeddyg orthopedig arbenigol. Bydd llawer o nyrsiaid milfeddygol mewn milfeddygfa atgyfeirio yn arbenigo ar un maes e.e. anesthesia, nyrsio llawfeddygol, oncoleg, a llawer mwy.

## Milfeddygfa gymysg
Gellid disgrifio milfeddygfa fel milfeddygfa gymysg os yw'n trin amrywiaeth mawr o rywogaethau anifeiliaid. Yn draddodiadol, cymysg oedd y rhan fwyaf o filfeddygfeydd, yn trin gwartheg, defaid, ceffylau, cŵn a chathod. Bellach, mae milfeddygfeydd cymysg yn llai cyffredin, ac i'w gweld fel arfer mewn ardaloedd gwledig.

## DOS
Sgiliau Diwrnod Cyntaf (Day One Skills - DOS) y Coleg Brenhinol yw'r sgiliau clinigol hanfodol y disgwylir i nyrsys milfeddygol fod wedi'u dysgu eisoes wrth ddechrau ar ymarfer clinigol ar anifeiliaid bach.

## DOC
Cymwyseddau Diwrnod Cyntaf (Day One Competences - DOC) y Coleg Brenhinol yw'r cymwyseddau hanfodol y bydd disgwyl i bob nyrs filfeddygol dan hyfforddiant fod wedi'u meithrin pan fyddant yn cofrestru.

## Lleoliad Gwaith.
Yr amser a dreulir mewn lleoliad gwaith, yn rhan o gwrs, lle y ceir cyswllt uniongyrchol ag achosion go iawn er mwyn datblygu sgiliau penodol. Fel arfer mae'n gyfnod estynedig hir ac yn fwy dwys na phrofiad gwaith.


## Profiad Gwaith
Amser a dreulir mewn diwydiant penodol i gael dealltwriaeth am y maes sydd o ddiddordeb, a gweld sut beth ydyw mewn gwirionedd. Fel arfer bydd yn gyfnod byr a bydd yn golygu arsylwi ar y gwaith yn bennaf, gan ennill rhywfaint o brofiad uniongyrchol o'r proffesiwn.




Canolfan Addysg Filfeddygol,
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3DA

+44 (0)01970 621646
vet-nursing@aber.ac.uk
abervetschool

Llyfryn wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan
y Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth, 2025.



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

113854-05.25
Credyd delweddau: freepik.com/stories